# COFNODION CYFARFOD Y GRŴP CYNULLIAD TRAWSBLEIDIOL AR DADAU A THADOLAETH

Cynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 23, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

**Dyddiad - Dydd Mercher 14 Medi 18.00 - 20.00**

**Yn bresennol -**

Mark Isherwood AC – Cadeirydd, Neil McEvoy AC, Michelle Brown AM

Paul Apreda – Ysgrifennydd

Roedd cyfanswm o 37 o unigolion eraill yn bresennol gan gynnwys y Cynghorydd Cenedlaethol ar roi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**AGENDA**

1. **Croeso a chyflwyniadau – Mark Isherwood AC**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Janet Finch-Saunders AC a Neil Hamilton AC.

Ymddiheurodd Paul Apreda (Ysgrifennydd) wrth y cyfarfod am y dryswch ynghylch defnyddio system gofrestru Eventbrite. Mynegwyd pryder y gellid dehongli geiriad y system i olygu bod angen i bobl oedd yn bresennol gyfrannu tuag at yr elusen. Byddai systemau i neilltuo llefydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol yn ei gwneud yn glir nad oedd hyn yn wir. Gwahoddwyd unigolion i gysylltu â'r Ysgrifennydd os oeddent yn dymuno cael ad-daliad llawn

2. **Siaradwr gwadd – Erin Pizzey –** Oes angen Tadau?

Siaradodd Erin am ei phlentyndod cynnar a hithau wedi cael ei geni yn Tsingtao, Tsieina. Cafodd ei magu gan rieni treisgar - ei mam a'i thad ill dau, a dysgodd sut i ddynwared eu trais. Gwelodd sut yr oedd hyn yn effeithio ar y plant yn ei theulu. Sefydlodd Erin loches camdrin domestig cynta'r byd yn Chiswick ym 1971. I ddechrau roedd yn gweithio gyda menywod yn unig ond daeth i sylweddoli bod angen cymorth ar ddynion hefyd ac y gallent hwythau fod yn ddioddefwyr a chyflawnwyr. Roedd hi'n cofio bod cyllid ar gael ar gyfer llochesau i fenywod ond nad oedd neb eisiau ariannu lloches i ddynion. Pwysleisiodd Erin ei chred mewn cyfartalwch rhwng y rhywiau a galwodd am ymrwymiad cryfach i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion.

Roedd hi'n credu bod ideoleg ffeministaidd wleidyddol yn hybu'r farn bod menywod yn ddioddefwyr a dynion yn gyflawnwyr. Roedd hi'n teimlo bod y farn hon yn atal cymorth priodol rhag cael ei ddarparu - cymorth a fyddai'n dechrau mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol o drais teuluol sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n arwain at blant yn parhau'n

agored i niwed.   Dywedodd fod y wladwriaeth (drwy'r system fudd-daliadau) wedi disodli rôl draddodiadol dynion fel tadau a darparwyr.

3. **Sesiwn Holi ac Ateb**

Ymhlith cyfraniadau gan y gynulleidfa cafwyd sylwadau mai dynion yw eu gelynion pennaf eu hunain yn aml gan eu bod yn methu â sylweddoli pryd mae'n nhw'n dioddef a hefyd yn methu â gweithredu ar y cyd i ddatrys y broblem, a bod y rhan fwyaf o wasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector yn mynd ati i'w heithrio a'u rhoi ar y cyrion er gwaethaf rhethreg i'r gwrthwyneb. Teimlai eraill bod camau breision wedi bod i fynd i'r afael â chynhwysiant ac er bod angen gwneud mwy roedd llawer o'r hyn oedd wedi digwydd yn gadarnhaol ac yn galonogol.

Dywedodd Neil McEvoy AC ei fod e wedi sefyll ar lwyfan ar gyfer rhianta ar y cyd yn etholiadau diweddar y Cynulliad a'i fod yn cefnogi cydraddoldeb.  Roedd e'n credu bod angen newid diwylliannol sy'n symud oddi wrth y 'diwydiant' trais domestig gwerth £5 miliwn y flwyddyn yng Nghymru a bod angen i wasanaethau fod â pholisi yn ei le pan fydd plentyn yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â thrais domestig.

Dywedodd Michelle Brown AC ei bod hi wedi ysgrifennu traethawd hir ar faterion yn ymwneud â phreswylio a chysylltu yn y Llys Teulu fel rhan o'i gradd prifysgol. Gwelodd yr angen i wobrwyo rhianta da gan dadau sy'n trin pobl eraill â pharch ac yn ei dderbyn yn ôl.

Symudodd y drafodaeth ymlaen wedyn i drafod ystod ehangach o faterion yn ymwneud â rhianta ar ochr y tad gan gynnwys mentrau ynghylch cyfrifoldeb rhieni a Deddf Diwygio Lles 2009 sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cofrestru genedigaethau ar y cyd gorfodol. Trafodwyd y diffyg cydnabyddiaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru o ran 'Dieithriwch rhieni'.  Roedd FNF Both Parents Matter Cymru wedi cymryd camau i ddarbwyllo rhwydwaith cyfiawnder teuluol  Llywodraeth Cymru i gydnabod hyn yn ffurfiol ond cafodd ei wrthod er gwaethaf ymateb cadarnhaol gweithwyr proffesiynol i gyfres o seminarau ar y pwnc gan Karen Woodall.

Daeth y cyfarfod i ben gyda chrynodeb gan y Cadeirydd, Mark Isherwood AC, a gydnabu fod y materion sy'n ymwneud â thadau yn cwmpasu'r setliad datganoledig ac annatganoledig e.e. cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru oedd Cafcass Cymru. Roedd angen i weithwyr cymdeithasol gynnal y ffocws ar sgiliau a datblygu.  Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod ei fod yn noddwr Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain.  Awgrymwyd bod angen gwneud llawer o waith i godi ymwybyddiaeth o'r materion ac i ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad. Bydd y grŵp yn gweithredu ar y materion allweddol a gododd o'r cyfarfod mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.  Bydd y llythyr a gaiff ei ddrafftio gan yr Ysgrifennydd ar ran y grŵp trawsbleidiol yn tynnu sylw at y materion allweddol ym mhortffolio Ysgrifennydd y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.10

**MANYLION CYFARFOD NESAF Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL**

18.00 – dydd Mercher 23 Tachwedd – Ystafell Gynadledda 21 – Tŷ Hywel, Bae Caerdydd.

RHAID i ymwelwyr allanol sydd am ddod gofrestru yma
https://www.eventbrite.co.uk/myevent?eid=28658581589

Rwy'n cadarnhau bod hwn yn gofnod cywir o gyfarfod y grŵp trawsbleidiol - Mark Isherwood AC